Santes Melangell, *c.* 6ed ganrif
Santes anifeiliaid

Cwm Pennant galant gweli – cwm uchel
i ochel caledi;
Cwm iachus nid oes i chi
ond cam i'r nef o'n Cwm ni.
Meilir Pennant Lewis

Dywedir mai merch neu wyres i Tudwal Tudclud o gyff Macsen Wledig oedd Melangell, ac yn ôl traddodiad, Ethni Wyddeles oedd ei mam. Yr oeddent yn byw yn Iwerddon ac fe drefnodd ei thad fod Melangell i briodi gŵr o deulu blaenllaw. Ond roedd hi'n anhapus â'r trefniant ac fe benderfynodd ffoi o afael a dylanwad ei theulu. Wedi teithio am ddyddiau lawer dros fôr a thir cyrhaeddodd gwm prydferth a thangnefeddus ynghanol bryniau Trefaldwyn, cwm a elwir hyd heddiw'n Pennant Melangell. Yno, yn unigeddau'r bryniau, bu'n byw bywyd syml yn gwasanaethu Duw ynghanol rhyfeddodau'r greadigaeth, ei phlanhigion a'i chreaduriaid, gan ddibynnu ar y tir am ei chynhaliaeth.

Y mae un hanes arbennig am Melangell. Un dydd yr oedd Brochwel Ysgithrog, tywysog Powys, a'i ddynion yn hela ysgyfarnogod yn yr ardal honno gyda haid o fytheiaid. Yno gwelodd y tywysog y ferch harddaf a welsai erioed yn gweddïo'n daer, a rhedodd yr ysgyfarnog i blygion ei gwisg i geisio lloches. Yr oedd yn amlwg fod yr anifail yn teimlo'n gwbl ddiogel yn ei chwmni. Gwylltiodd y bytheiaid yn drybeilig ond nid oedd mymryn o'u hofn ar Melangell. Er i Brochwel annog y cŵn at yr ysgyfarnog, gwrthodent fynd ddim nes ati ond yn hytrach udo a chilio'n ôl. Penderfynodd y byddai'n cael sgwrs â'r ferch ryfedd hon ac fe gafodd ei holl hanes.

Synnwyd ef gan ei duwioldeb a dywedodd, 'Gan fod Duw wedi caniatáu lloches i ysgyfarnog fechan yn dy wisg, cyflwynaf i ti'r tir hwn, sy'n rhan o'm teyrnas, yn rhodd, i fod yn noddfa i neb a fydd mewn angen, boed berson neu anifail.'

Galwodd Brochwel ar ei ddynion, ac wedi ffarwelio â Melangell aethant tua thre. Ar eu hymadawiad edrychodd Brochwel yn ôl i lawr i'r cwm a gweld Melangell yno, wedi ei hamgylchynu gan lu o adar ac anifeiliaid mân. Gwelodd ddarlun o gytgord a harmoni rhwng y Creawdwr, ei greaduriaid a'i greadigaeth.

Dywedir bod Melangell wedi treulio deugain mlynedd fel lleian yn y cyffiniau hynny, a bod tangnefedd mawr i'w deimlo yn yr ardal. Hyfforddodd leianod eraill, a byddai croeso a diogelwch bob amser yno i holl anifeiliaid y fro.

Pennant Melangell yw'r unig eglwys sy'n dwyn ei henw. Flynyddoedd yn ddiweddarach fe ddaethpwyd i'w hadnabod fel nawddsantes yr ysgyfarnogod ac anifeiliaid yn gyffredinol. Fe'i coffeir ar ddiwrnod olaf mis Ionawr.